



Prentisiaethau Apprenticeships



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eisiau recriwtio
pobl anabl
dalentog sydd â
sgiliau priodol ar
gyfer eich busnes?

Yr ateb yw
Prentisiaethau.



UNDAE EWROPEAID
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mae prentisiaethau yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr a gallant eich helpu i drawsnewid eich busnes, gan gynnig ffordd o ddod o hyd i ddoniau newydd. Ar hyn o bryd, dim ond 1.5% o brentisiaethau yng Nghymru sy'n cael eu gwneud gan bobl anabl. Mae hynny'n golygu nad yw cyflogwyr yn manteisio'n llwyr ar sylfaen werthfawr o sgiliau. Ond nid dyma'r unig reswm y dylid cyflogi prentis anabl. Dyma 10 rheswm arall...

Cynyddu cynhyrchiant

- 1.** Gall gweithlu amrywiol ddod o hyd i atebion gwell i heriau busnes, gan eich helpu i hybu cynhyrchiant.

Ffyddlondeb ac ymrwymiad

- 2.** Mae gweithwyr anabl yn fwy tebygol o aros mewn swydd am gyfnod hirach ac o gael llai o ddiwrnodau i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch.

Gwella gwasanaethau

- 3.** Mae'n bosibl y bydd gan weithlu cynhwysol sgiliau a gwybodaeth ychwanegol a fydd yn gallu eich helpu i ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid anabl.

Mynediad i ddoniau ehangach

- 4.** Gallai hyrwyddo eich polisiau ar gyfer pobl anabl fel rhan o'ch proses recriwtio eich helpu i ddenu mwy o ymgeiswyr o safon.

Hybu morâl staff

- 5.** Gall staff sydd eisoes yn gweithio i'r busnes a darpar staff weld bod y sefydliad yn gofalu am ei weithlu.

Timau gwaith cryfach

- 6.** Bydd gweithwyr nad ydynt yn anabl yn ymwybodol o sut i wneud y gweithle yn fwy cynhwysol drwy weithio ochr yn ochr â chydweithwyr anabl.

Atebion arloesol

- 7.** Mae gweithwyr anabl yn fwy tebygol o ddatrys problemau yn greadigol ac o gyflawni tasgau gwahanol drwy ddulliau newydd ac arloesol.

Lleihau costau hyfforddi a recriwtio

- 8.** Mae cadw gweithwyr sydd wedi dod yn anabl yn ystod eu bywyd gwaith a'u helpu i wella eu sgiliau drwy brentisiaethau yn arbed costau recriwtio a hyfforddi.

Gwella delwedd o'r brand

- 9.** Mae creu gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gwsmeriaid yn ogystal â'r gymuned yn creu darlun eich bod yn gyflogwr teg a chynhwysol.

10. Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Dyna sy'n gywir i'w wneud!

Am ragor o wybodaeth, ewch i: businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau neu ffoniwch 03000 6 03000.